

Awdurdod Cynllunio Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

ADRODDIAD BLYNYDDOL AR BERFFORMIAD CYNLLUNIO – 2018-19

RHAGAIR

'Pleser o'r mwyaf gennyf yw cyflwyno'r pumed Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad Cynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP).

Cafodd adroddiadau blynyddol ar berfformiad cynllunio eu cyflwyno fel rhan o gynigion Llywodraeth Cymru, a ymgorfforwyd yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015, i foderneiddio'r system gynllunio a gwella'r modd y caiff gwasanaethau cynllunio eu darparu yn lleol. Gobeithio'n wir bod y ddogfen hon yn cyflwyno darlun clir o'r modd yr ydym yn perfformio ein swyddogaeth gynllunio. Roeddem yn hynod falch ein bod wedi llwyddo yn ystod 2018/19 i ddarparu'r cyfleuster i'r cyhoedd allu cael golwg ar geisiadau cynllunio ar-lein.

Mae Parciau Cenedlaethol yn lleoedd arbennig, a'n tasg ni yw sicrhau bod y dirwedd werthfawr hon yn cael ei gwarchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rydym yn ymwybodol ein bod yn ymdrechu drwy ein swyddogaeth gynllunio i gynnal cydbwysedd iach fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Y CYD-DESTUN

- 1. Mae'r adran hon yn nodi'r cyd-destun cynllunio y mae'r awdurdod cynllunio lleol yn gweithredu o'i fewn.**
- 1.1. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gyfrifol am gyflawni'r gwasanaethau cynllunio yn ardal Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae ardal y Parc Cenedlaethol yn rhedeg mewn rhuban o gwmpas Arfordir Sir Benfro ac mae'n cynnwys rhannau isaf afonydd Cleddau, mae hefyd yn cynnwys mynyddoedd y Preseli a chwm Gwaun. Dyma'r unig Barc Cenedlaethol yn y DU a ddynodwyd yn bennaf am ei arfordir, ac mae ynysoedd Sir Benfro yn cael eu cynnwys yn ardal y Parc.
- 1.2. Mae'r Parc Cenedlaethol yn cwmpasu ardal o 614km² ac yn un o'r Parciau Cenedlaethol yn y DU sydd â phoblogaeth mwy dwys, gyda bron i 22,000 o bobl yn byw mewn 49 o ardaloedd Cynghorau Cymuned, Tref a Dinas (ffigurau cyfrifiad 2010). Mae'r rhan fwyaf o'r Parc Cenedlaethol yn eiddo preifat; fodd bynnag, mae rhyw chwarter o'r ardal yn dir cyhoeddus neu mewn perchnogaeth elusennol.

1.3. Cafodd y Parc Cenedlaethol ei hun ei ddynodi yn 1952, gyda'r dibenion canlynol:

- gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol; a
- hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol.

2. Y cefndir cynllunio, gan gynnwys cynlluniau datblygu a fabwysiadwyd neu a adawyd.

2.1 Cafodd Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei fabwysiadu yn 2010 ac mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 2010 a 2021. Roedd y cynllun hwn yn disodli'r Cydgynllun Datblygu Unedol ar gyfer Sir Benfro (2000-2016). Mae'r Awdurdod wedi cynhyrchu ystod o Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) sy'n ategu ac yn rhoi canllawiau i'r gwaith o weithredu'r polisiau sydd wedi'u cynnwys yn y CDLI. Mae'r Awdurdod wedi adolygu ei Gynllun Datblygu Lleol ac ar hyn o bryd mae'r cynllun newydd yn cael ei archwilio, a rhagwelir y bydd y CDLI2 yn cael ei fabwysiadu yn ffurfiol yn ystod y flwyddyn adrodd 2019/20.

3. Sut mae'n cyd-fynd â'r strategaeth gymunedol a/neu weithgarwch strategol a gweithredol ehangach yr Awdurdod.

3.1. Mae gan yr Awdurdod Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol (2015-2019) sy'n nodi dull cydlynol o reoli dibenion y Parc Cenedlaethol. Mae'r Cynllun yn nodi llwybr clir rhwng dibenion y Parc Cenedlaethol a'r polisiau rheoli lle mae'r APC yn egluro beth yw'r Parc Cenedlaethol, sut mae'r Parc yn cael ei reoli, a pham y bwriedir ei reoli mewn un ffordd yn hytrach na ffordd arall. Cynllun ydyw ar gyfer sefydliadau partner, y trigolion, archwilywyr ac unrhyw un sydd â budd mwy manwl yn y Parc Cenedlaethol a rôl yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn y gwaith o reoli'r Parc. Mae'r Awdurdod ar hyn o bryd yn ymgynghori ar Gynllun Rheoli drafft fydd yn cwmpasu'r cyfnod 2020-2024, a rhagwelir y caiff y cynllun ei fabwysiadu yn ffurfiol yn ystod y flwyddyn adrodd 2019/20.

4. Dylanwadau mawr presennol a blaenorol ar y defnydd o'r tir (e.e. diwydiannol trwm, amaethyddol, ynni, trafnidiaeth).

4.1. Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn enwog am ei dirweddau hardd eithriadol, a'r dylanwadau ar y tirweddau hyn, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, fydd yr arferion amaethyddol sydd wedi naddu'r dirwedd, a'r arferion fydd yn dylanwadu'n drwm ar ansawdd y dirwedd. Bydd y diwydiannau puro olew o amgylch yr Aber hefyd yn effeithio ar hyn. Y prif ddefnyddwyr eraill o'r tir yw'r meysydd amddiffyn a thwristiaeth.

5. Lleoliad hanesyddol/tirwedd yr ardal, gan gynnwys AHNEau, ardaloedd cadwraeth ac ati.

5.1. Ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro mae 285 o Henebion Rhestredig, a dros 7,500 o safleoedd yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol. Mae dros 1,200 o adeiladau rhestredig a 13 o Ardaloedd Cadwraeth dynodedig yn y Parc. Mae naw ardal Tirwedd Hanesyddol yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn y Parc Cenedlaethol, ac mae 15 o Barciau a Gerddi Hanesyddol yn y Parc

Cenedlaethol. Y bwriad yw ehangu Ardal Gadwraeth Dinbych-y-pysgod yn sylweddol, ac mae'r Awdurdod yn paratoi Canllaw Cynllunio Atodol newydd i amlygu hyn.

6. Safleoedd trefol neu wledig ac aneddiadau mawr

- 6.1. Ardal wledig yn bennaf yw'r Parc Cenedlaethol gyda phedair Canolfan fwy, sef Dinbych-y-pysgod, Tyddewi, Saundersfoot a Threfdraeth. Amcangyfrifir bod traean o'r holl aelwydydd yn y Parc Cenedlaethol yn byw ar wasgar yng nghefn gwlad mewn pentrefi llai, pentrefannau, anheddau a ffermydd gwasgaredig.
- 6.2. Ymhlith yr ardaloedd trefol allweddol yn y Parc Cenedlaethol mae Dinbych-y-pysgod (Canolfan Haen 2) a Threfdraeth, Saundersfoot a Thyddewi (Canolfannau Haen 3). Mae 19 o Ganolfannau Gwledig (Haen 4) ar hyd a lled y Parc Cenedlaethol gan gynnwys Amroth, Angle, Bosheston, Aberllydan, Dale, Dinas, Felindre Farchog, Herbrandston, Jameston, Lawrenni, Little Haven, Maenorbŷr, Gorsaf Maenorbŷr, Marloes, Niwgwl, Pont-faen, Solfach, St Ishmael a Threfin. Mae 10 arall o Ganolfannau Gwledig a leolir yn rhannol yn y Parc Cenedlaethol.
- 6.3. Cyfanswm nifer yr aelwydydd a nodir yng Nghyfrifiad 2011 yn y Parc Cenedlaethol yw 13,700.

7. Newidiadau yn y boblogaeth a'r dylanwad ar y Cynllun Datblygu Lleol/diwygiadau i ddod.

- 7.1. Mae'r ffigurau poblogaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru yn dangos gostyngiad yn nifer y boblogaeth yn y Parc Cenedlaethol hwn.
- 7.2. Ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol, mae'r rhagamcanion o ffigurau'r boblogaeth wedi cael eu cymryd i ystyriaeth wrth ystyried nifer y tai fydd eu hangen dros oes y Cynllun newydd (2031). Ffocws y Cynllun yw darparu tai fforddiadwy drwy groes-gymhorthdal o ddatblygiadau tai'r farchnad agored.

Y GWASANAETH CYNLLUNIO

- 8.1. Mae'r Awdurdod wedi'i drefnu yn ddau maes gwasanaeth allweddol, ac mae un o'r ddau yn cynnwys Cyfarwyddyd y Parc/Cynllunio, sy'n dod o fewn cylch gwaith y Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd y Parc.
- 8.2. Mae swyddogaeth Polisi Cynllunio y Parc Cenedlaethol dan gyfarwyddyd Pennaeth Cyfarwyddyd y Parc. Y Pennaeth hwn sydd hefyd yn gyfrifol am Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, Bioamrywiaeth, Archeoleg, Llwybr yr Arfordir a llwybrau troed, iechyd a lles, materion amgylcheddol a gwybodaeth ystadegol a data.
Mae'r swyddogaethau Rheoli Datblygu a Gorfodaeth dan gyfarwyddyd yr Arweinydd Tîm: Rheoli Datblygu, ac mae'r Arweinydd hwn hefyd yn gyfrifol am gadwraeth adeiladau hanesyddol, ecoleg cynllunio, materion coed a thirwedd.
- 8.3. Alldro rheoli datblygu yn 2018/19 oedd £455,846, ac mae'r gyllideb ar gyfer 2019/20 wedi'i gosod ar £465,899, sef gostyngiad o 30% dros 6 mlynedd gyda lleihad yn y lefelau staffio sy'n gyfwerth â 2 swydd llawn-amser yn y cyfnod hwnnw. Mae'r swyddogaethau polisi cynllunio a swyddogaethau eraill Cyfarwyddyd ar rhyw £190,000 bob blwyddyn.
- 8.4. Mae ambell i swydd yn yr adran gynllunio wedi bod yn wag yn ystod y flwyddyn ac roedd effaith hynny wedi ymledu. Drwy weithio ar y cyd ag Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill, cafodd un swyddog Rheoli Datblygu ei secondio i Gyngor Sir Caerfyrddin am gyfnod o 5 mis, oedd yn gymorth i Gaerfyrddin gyda'u llwyth gwaith, ac yn bwysicach, yn rhoi profiad gwerthfawr i'r swyddog dan sylw. Mae'r APCAP wedi parhau i ddefnyddio'r trefniadau hyblyg o ddefnyddio ymgynghorwyr i liniaru'r pwysau gwaith. Mae cytundebau lefel gwasanaeth i ymdrin â chynllunio mwynau gyda Chyngor Sir Caerfyrddin (CSC), ac un cytundeb sy'n cynnwys gwaith ecoleg cynllunio gyda Chyngor Sir Penfro (CSP).
- 8.4. Wrth edrych i'r dyfodol, mae APCAP yn awyddus i gynllunio ar gyfer arbenigedd cynllunio i barhau i gyflawni'r gwasanaeth cynllunio yn dda. I'r perwyl hwn, mae'r Awdurdod yn parhau i roi blaenoriaeth uchel ar hyfforddi staff ar bob lefel yn yr adran gynllunio. Gan mai prin yw'r swyddi gwag sy'n cael eu llenwi, bwriad yr APCAP yw meithrin ein cynllunwyr a'n swyddogion gorfodi ein hunain drwy gynnig hyfforddiant mewn swydd i ymgeiswyr o ddisgyblaethau eraill sydd wedi gallu dangos sgiliau ac ymagweddau bywyd y byddwn yn ceisio eu cael yn y proffesiwn cynllunio.
- 8.5. Mae APCAP yn ymrwymedig i sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi ar gyfer eu rolau, ac felly mae pob swyddog cynllunio yn aelodau o'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI) ac mae'r Awdurdod yn talu am y tanysgrifiadau i'r corff proffesiynol hwn. Rhoddir proffil uchel i'r swyddogaeth gorfodi yn yr Awdurdod ac felly mae pob swyddog gorfodi yn aelodau o'r Gymdeithas Genedlaethol Gorfodi Cynllunio (NAPE) ac mae'r Awdurdod yn talu'r tanysgrifiadau i'r corff proffesiynol hwn. Mae'r staff cynllunio yn mynd ati'n frwd i rannu arferion da gyda sefydliadau eraill ac fe'u hanogir yn frwd i fynychu cyfarfodydd a seminarau i ehangu eu profiadau hwy eu hunain yn ogystal.

- 8.6. Mae'r Awdurdod yn disgwyl i'w gynllunwyr a'i swyddogion gorfodi gwblhau a chydymffurfio â gofynion datblygiad proffesiynol parhaus y corff RTPI/NAPE ac asesir hyn drwy drefn yr Awdurdod o arfarnu perfformiad ei staff yn flynyddol.
- 8.7. Mae rhaglen leol a pherthnasol o hyfforddiant cynllunio yn cael ei chyflwyno yn fewnol gan yr Awdurdod, ac mae cynllunwyr (ac eraill gan gynnwys Aelodau yr Awdurdod) yn cael eu gwahodd i fynychu'r sesiynau hyn. Mae'r hyfforddiant a gynigir i'r staff ac i'r Aelodau yn cwmparu amrywiaeth enfawr o bynciau sy'n cael eu hystyried yn briodol i gynllunwyr ymwneud â hwy, yn enwedig o ystyried statws y Parc Cenedlaethol.
- 8.9 Mae APCAP ynghyd â Chyngor Sir Penfro wedi parhau i drefnu Fforwm Asiantau. Mae'r fforwm yn cwrdd bob chwarter ac mae'n fwrdd nid yn unig i gyflwyno gwybodaeth i'r asiantau am faterion cynllunio sy'n berthnasol i'w gwaith yn Sir Benfro, ond hefyd yn cynnig cyfle i asiantau gyflwyno'u barn ar y modd y mae'r ddau awdurdod cynllunio lleol yn gweithio i gymryd eu hanghenion hwy i ystyriaeth. Mae cynrychiolaeth dda o'r asiantau cynllunio lleol yn mynychu cyfarfodydd y fforwm.
- 8.10 Mae cydweithio yn rhan holl bwysig o ddiwylliant APCAP - ac mae hyn i'w briodoli yn bennaf yn ôl pob tebyg i'r ffaith mai Awdurdod bach yw'r Parc. Mae gweithio ar y cyd yn ein galluogi i rannu arferion da, a hefyd yn gwneud yr Awdurdod yn fwy cydnerth.
- 8.11 Mae perthynas waith dda rhyngom a'n hawdurdodau cyfagos, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin ac yn enwedig Sir Benfro. Rydym yn defnyddio adnoddau CSP ar gyfer monitro trefniadau adran 106 a hefyd yn defnyddio eu tîm cyfreithiol o ran drafftio a defnyddio templedi ar gyfer cytundebau cyfreithiol cynllunio. Hefyd rydym yn prynu i mewn i wasanaeth y Cyngor ar ecoleg cynllunio – gan sicrhau cysondeb dulliau ledled Sir Benfro gyfan o ran bioamrywiaeth nad yw'n cymryd sylw o ffiniau gweinyddol. Mae gan y ddau Awdurdod – CS Penfro ac APCAP gytundeb dirprwyo gyda Cadw i ymdrin â rhai ceisiadau adeiladau rhestredig - mae'r cytundeb yn caniatáu i'r swyddogion proffesiynol weithio ar draws y ffiniau - unwaith eto i gynorthwyo o ran cysondeb a chydnerthedd.
- 8.12 Rydym wedi gweithredu system effeithiol o reoli dogfennau, sy'n caniatáu mynediad i'r ceisiadau cynllunio ar ein Gwefan ac sy'n hyrwyddo ymagwedd gyfeillgar drwy ein gwasanaeth cymhorthfa cynllunio a chymorth cyn-ymgeisio. Byddwn yn parhau i gydweithio gyda'r Adranau Cynllunio yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac yn gwneud cyfraniadau i POSW (Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru) drwy rannu gwaith arferion gorau.

STORI'R AWDURDOD

- 9.1. Mae'r Awdurdod wedi adolygu ei Gynllun Datblygu Lleol ac ar hyn o bryd mae'r Cynllun yn cael ei archwilio, a rhagwelir y bydd y CDLI2 yn cael ei fabwysiadu yn ffurfiol yn ystod blwyddyn adrodd 2019/20.
- 9.2. Mae Adroddiad Monitro Blyneddol Cynllun Datblygu Lleol 2017-18 ar gael, ac mae copi o'r adroddiad ar wefan yr Awdurdod. Bydd yr Adroddiad Monitro 2018-19 ar gael erbyn 31 Hydref 2019.
- 9.3. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn clustnodi 17 o ganlyniadau allweddol erbyn diwedd cyfnod y Cynllun (h.y. 2021) ac mae 36 dangosydd yn yr Adroddiad Monitro wedi'u grwpio o dan y canlyniadau hyn i brofi perfformiad y Cynllun (adroddiad 2018).
- 9.4. Yn gryno, mae'r mwyafrif o dargedau ac amcanion y Cynllun yn cael eu diwallu. Mae yna broblemau gyda 7. Mae'r materion allweddol yn ymwneud â'r cyflenwad tir sydd ar gael yn effeithiol ar gyfer codi tai; tir sy'n cael ei ddwyn ymlaen ar gyfer cyflogaeth, a darparu tai fforddiadwy.
- 9.5. Mae'r broses o wneud cais cynllunio yn dod yn fwyfwy cymhleth ac mae'r drefn swyddog ar ddyletswydd lle gall darpar ymgeiswyr archebu slot hanner awr gyda chynllunydd i fynd drwy'r broses gynllunio a pha wybodaeth sydd ei hangen i'w chyflwyno gyda'u cais, wedi bod yn boblogaidd eto eleni. Ar hyn o bryd ni chodir tâl am y gwasanaeth hwn.
- 9.6. Prosiectau cyfredol
- Archwilio'r Cynllun Datblygu Lleol Adnau
 - Sefydlu'r System Rheoli Dogfennau
 - Digideiddio ffeiliau hanesyddol
- 9.7. Pwysau lleol
- Ceisiadau amaethyddol mawr ac adeiladau amaethyddol heb ganiatâd.
 - Monitro safleoedd carafanau a gwersylla a safleoedd rheol '28' diwrnod.
 - Cynnydd mewn llety gwyliau heb ganiatâd drwy Airbnb.
- 9.8. Gwella gwasanaethau

Gweithio tuag at yr amcanion llesiant corfforaethol canlynol:

Amcanion Llesiant APCAP	Cyfrannu at Nodau Llesiant
1. Hybu a chefnogi'r gwaith o ddatblygu cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig ym maes	Cyfrannu at 'Gymru Ffyniannus' a 'Chymru Gydnerth' drwy hybu datblygiad busnesau newydd a phresennol a chynyddu nifer y swyddi gan beidio â chefnogi defnydd anghynaliadwy o adnoddau naturiol. Dylai mwy o

twristiaeth a hamdden.	gyflogaeth gefnogi 'Cymru Fwy Cyfartal' a hefyd 'Cymru Fwy Iach'.
2. Gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol	Mae defnyddio rheoli ecosystemau yn dechneg allweddol o ran paratoi'r Asesiad Llesiant ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, o ran sicrhau 'Cymru Gydnerth' ac o ran paratoi unrhyw Gynllun Rheoli a Chynllun Datblygu Lleol y Parc Cenedlaethol yn y dyfodol.
3. Galluogi ac annog rhagor o bobl i wella eu llesiant drwy wneud mwy o ddefnydd o'r Parc Cenedlaethol, waeth beth eu hamgylchiadau	Gall gwneud gweithgareddau yn yr awyr agored, megis cerdded, wella'r teimlad o lesiant, lleihau straen a bod yn ysbrydoliaeth. Drwy hyrwyddo defnydd mwy cyson o weithgareddau awyr agored, boed hynny ar stepen drws pobl neu yn y Parc Cenedlaethol, annog gwirfoddolwyr a gwaredu rhwystrau i fynediad, mae'r amcan hwn yn cyfrannu at 'Gymru Fwy Iach' a 'Chymru Fwy Cyfartal'.
4. Parhau i sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan annatod o waith a diwylliant yr Awdurdod Parc Cenedlaethol	Mae'r Awdurdod yn annog pobl llai abl i ymgysylltu a chyfrannu, ac mae'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ymhlith ei staff a'i Aelodau a thrwy gyfleoedd hyfforddiant.
5. Gweithio ochr yn ochr â chymunedau i'w helpu i fanteisio i'r eithaf ar yr Awdurdod Parc Cenedlaethol	Mae nifer o gymunedau a grwpiau lleol eisoes yn ymgysylltu ac yn cyfrannu at waith yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, sy'n amrywio o ymateb i ymgynghori i brosiectau lleol ar wella'r amgylchedd. Drwy ehangu graddfa a chwmpas y cyfrannu hwn, cymryd ymagwedd o gyd-gynhyrchu, a datblygu ein gwaith i gynnwys cynulleidfaoedd newydd sy'n cynrychioli'r gymuned, byddwn yn ychwanegu at 'Gymru â chymunedau cydlynus'.
6. Diogelu a hyrwyddo diwylliant ieithyddol, celfyddydau, a threftadaeth lleol yr ardal	Mae gan Sir Benfro ddiwylliant cyfoethog o ran y celfyddydau, treftadaeth ac iaith. Caiff hyn ei gydnabod yn rhan o nodweddion unigryw yr ardal gan gyfrannu at 'Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.
7. Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang	Drwy leihau ein hól troed carbon yn barhaus, cefnogi'r agenda twf gwyrdd drwy brosiectau'r SDF ac addysgu pobl am ddibenion arbennig y Parc, mae'r Awdurdod yn cyfrannu at 'Gymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang'. Mae'r Amcanion Llesiant yn cefnogi Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang drwy ein gwaith yn diogelu'r amgylchedd naturiol a hanesyddol, ein cymorth i'r economi leol a drwy'r addysg a ddarperir gennym.

9.9. Mae'r mesurau perfformiad cynllunio yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Corfforaethol, a chyflwynir adroddiadau gerbron yr Aelodau ar y perfformiad yn y Pwyllgor Adolygu Gweithredol ac yn y Pwyllgor Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol yn ystod y flwyddyn.

9.10. Mae'r timau cynllunio yn Rheoli Datblygu ac yn Polisi Cynllunio yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau, effeithlonrwydd a chanfyddiad y cyhoedd fel sbardunwyr ar gyfer eu rhaglenni gwaith. O fewn Rheoli Datblygu, y targedau allweddol oedd:

1. Gwneud penderfyniadau ynghynt ar geisiadau cynllunio i 66 diwrnod ar gyfartaledd.
2. Adolygu'r prosesau cyn-ymgeisio a'r prosesau cymorthfeydd cynllunio.
3. Sefydlu system ffurfiol o fonitro achosion gorfodi.
4. Diweddarau Canllawiau Cynllunio Atodol yr Ardaloedd Cadwraeth.
5. Parhau â'r canolbwyntio ar brosiectau gorfodi.
6. Parhau â'r gwaith o wella canfyddiad y cyhoedd o'r gwasanaeth cynllunio drwy ymgysylltu mwy â'r gymuned ac â'r cynghorau tref a chymuned.

- 9.11. Mae ffigurau perfformiad yr APCAP yn siarad drostynt eu hunain yn y tablau ar ddiwedd y ddogfen hon. Roedd y System Rheoli Dogfennau yn weithredol o fis Mawrth 2019 ac roedd ceisiadau cynllunio ar gael ar-lein o'r dyddiad hwn ymlaen.
- 9.12. **Cyflenwad Tir ar gyfer Tai:** Mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddangos cyflenwad o dir ar gyfer tai sydd ar gael yn effeithiol am bum mlynedd.
- 9.13. Mae'r gostyngiad parhaus yn y cyflenwad tir i'w briodoli i nifer o ffactorau, a'r mwyaf cyffredin o'r ffactorau hyn yw diffyg diddordeb gan dirberchnogion i ddatblygu eu tir yn y tymor byr a'r tymor canolig. Mae'r diddordeb mewn datblygu'r safleoedd a ddyrennir yn y Cynllun Datblygu Lleol wedi dangos cynnydd amlwg yn y blynyddoedd diwethaf hyn gyda nifer o ymholiadau cyn-ymgeisio a cheisiadau cynllunio wedi'u gwneud i'r Awdurdod. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi bod yn ddigon i gwrdd â'r diffyg cronus o safleoedd a ddaeth ymlaen ym blynyddoedd cyntaf y Cynllun ac mae hyn bellach yn fater i'r adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol.
- 9.14. Cafodd Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai ei gwblhau fis Gorffennaf 2018 sydd wedi dangos cyflenwad tir o 1.2 mlynedd. Bydd y Cynllun yn dod i ben rhan o'r ffordd drwy gyfnod y Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (dyddiad diwedd y Cynllun yw 2021) ac felly mae'r dull cyfrifo wedi cymryd hyn i ystyriaeth (fel y nodir yn Nhabl 4 o'r Nodyn Cyngor Technegol 1). Mae'r adroddiad yn defnyddio'r dull gweddilliol o gyfrifo'r cyflenwad tir.
- 9.15. Er mwyn helpu i ddod â safleoedd ymlaen, mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn parhau i gymryd y camau canlynol:
- Cymeradwyo ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau tai cyn belled ag y bodlonir pob ystyriaeth polisi perthnasol. Mae'r mwyafrif o'r ceisiadau a gyflwynwyd i'r Awdurdod yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi bod ar safleoedd bach nad ydynt wedi'u rhestru yn y cyflenwad tir.
 - Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol diwygiedig ar Dai Fforddiadwy a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod fis Tachwedd 2014 wedi ailystyried asesiadau hyfywedd ar gyfer safleoedd a ddyrennir. Mae hefyd wedi symleiddio'r broses ar gyfer ymgeiswyr a phwysleisio bod y gofynion yn sail ar gyfer cyd-drafod. Bu cynnydd yn nifer y tirberchnogion safleoedd a ddyrannwyd sydd wedi cysylltu â'r Awdurdod gyda'r bwriad o ddod â safleoedd ymlaen i'w datblygu ers mabwysiadu'r canllawiau.
 - Mae gan yr Awdurdod ddeialog barhaus gyda pherchnogion nifer o'r dyraniadau tir yn y Parc. Mae nifer o'r tirberchnogion yn gwneud gwaith paratoadol i ddechrau dod â safleoedd ymlaen i'w datblygu.

- d) Bydd yr Awdurdod yn adolygu'r dyraniadau safleoedd drwy'r gwaith o adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol i fynd i'r afael â'r diffyg yn y tir sydd ar gael yn effeithiol.

9.16. Ar gyfer adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol mae hyn wedi golygu edrych eto ar ofynion cyffredinol tir ar gyfer tai, ac o ganlyniad y ddarpariaeth tai yn y Cynllun, a chydabod yr ansicrwydd yn y farchnad dai wrth bennu targedau blynyddol.

BETH YW BARN DEFNYDDWYR Y GWASANAETH

Yn 2017-18 cynhaliodd yr Awdurdod arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid gyda'r nod o asesu barn pobl (asiantau ac aelodau'r cyhoedd) oedd wedi derbyn penderfyniad ar gais cynllunio yn ystod y flwyddyn.

Anfonwyd yr arolwg at 186 o bobl, a chyflwynodd 17% ohonynt ymateb cyfan neu ymateb rhannol. Roedd mwyafrif yr ymatebion (56%) oddi wrth aelodau'r cyhoedd. Roedd 0% o'r ymatebwyr wedi cael eu cais cynllunio diweddaraf wedi'i wrthod.


Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau am y gwasanaeth cynllunio. Mae Tabl 1 yn dangos canran yr ymatebwyr a ddewisodd naill ai 'tueddu i gytuno' neu 'cytuno'n llwyr' i bob datganiad ar gyfer ein hawdurdod cynllunio ni a Chymru.

Tabl 1: Canran yr ymatebwyr oedd yn cytuno â phob datganiad, 2017-18

Respondents who agreed that:	Pembrokeshire Coast National Park LPA %	Wales %
The LPA applies its planning rules fairly and consistently	47	55
The LPA gave good advice to help them make a successful application	67	60
The LPA gives help throughout, including with conditions	61	52
The LPA responded promptly when they had questions	63	62
They were listened to about their application	71	60
They were kept informed about their application	48	52
They were satisfied overall with how the LPA handled their application	72	63

Hefyd gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis tair o nodweddion gwasanaeth cynllunio o restr fyddai yn eu barn hwy o gymorth mwyaf iddynt gyflawni datblygiadau llwyddiannus. Mae Ffigwr 1 yn dangos canran yr ymatebwyr a ddewisodd nodwedd fel un o'u tri dewis. I ni, 'y cyfle i siarad â chynllunydd ar ddyletswydd cyn cyflwyno cais' oedd y dewis mwyaf poblogaidd.

Ffigur 1: Nodweddion gwasanaeth cynllunio da, 2017-18




Ymhlith y sylwadau a dderbyniwyd oedd:

- “Pleser yw gweithio gyda’r tîm o swyddogion cynllunio yn APCAP.”
- “Mae’n wasanaeth da”.
- " Byddai’n well petai ganddynt fwy o staff yn rheoli datblygu, mae pob un ohonynt yn gweithio i’r eithaf”.

Yn 2018-19 cynhaliwyd arolwg o farn clerod cynghorau tref a chymuned gan yr ymgynghorir â hwy yn statudol ar gyfer ein hawdurdod cynllunio. Mae 49 o’r cynghorau hyn yn ein hardal, a derbyniwyd 11 o ymatebion i’n harolwg.

Gofynnwyd i’r clerod ddewis tair ffordd y gallai’r ACLI fod o gymorth, yn eu barn hwy, i gynghorau tref/cymuned gyfrannu’n fwy effeithiol yn y system gynllunio. Mae Ffigur 2 yn dangos canran yr ymatebwyr a ddewisodd pob opsiwn fel un o’u tri dewis. Y ddau opsiwn a ddewiswyd amlaf ar gyfer ein ACLI ni oedd ‘Rhoi adborth am y modd y cafodd ein sylwadau ar geisiadau cynllunio eu cymryd i ystyriaeth’ a ‘Rhoi hyfforddiant lleol ar faterion cynllunio i gynghorau tref/cymuned’.

Ffigur 2: Ffyrdd y gall ACLI fod o gymorth i gynghorau tref/cymuned gyfrannu'n fwy effeithiol yn y system gynllunio, 2018-19



EIN PERFFORMIAD 2018-19

Mae'r adran hon yn rhoi manylion am ein perfformiad yn 2018-19. Mae'n ystyried y dangosyddion Fframwaith Perfformiad Cynllunio a data arall sydd ar gael i helpu i beintio darlun cynhwysfawr o'r perfformiad. Lle bo'n briodol rydym yn gwneud cymhariaeth rhwng ein perfformiad ni a pherfformiad Cymru gyfan.

Caiff perfformiad ei ddadansoddi ar draws y pum agwedd allweddol o ddarparu gwasanaeth cynllunio fel y nodir yn y Fframwaith Perfformiad Cynllunio:

- Llunio Cynllun;
- Effeithlonrwydd;
- Ansawdd;
- Ymgysylltu; a
- Gorfodi.

Llunio Cynllun

Ar 31 Mawrth 2019, ni oedd un o 23 Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) oedd â chynllun datblygu cyfredol ar waith. Mae'n ofynnol i ni gyflwyno Adroddiad Monitro Blynnyddol fis Hydref 2019. Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi.


Yn ystod cyfnod yr adroddiad blynyddol ar berfformiad, roedd gennym 1.4 mlynedd o gyflenwad tir ar gyfer tai wedi'i glustnodi, gan ein gwneud yn un o 19 ACLI yng Nghymru heb y cyflenwad gofynnol o 5 mlynedd.

Dywedodd 9 o'r ymatebwyr i'r arolwg o farn clerod cyngor tref a chymuned 2018-19 (82%) bod eu cyngor wedi cyfrannu at lunio a/neu adolygu ein CDLI. O'r rhain, roedd 56% yn cytuno bod y broses CDLI yn hawdd i'w ddeall, ac roedd 78% yn cytuno bod eu cyngor yn fodlon â'r modd y mae'r broses CDLI yn mynd (neu wedi mynd), o'i gymharu â 64% a 62% ar draws Cymru gyfan.

Effeithlonrwydd

Yn 2018-19, penderfynwyd ar 500 o geisiadau cynllunio gennym, pob un yn cymryd 69 diwrnod (10 wythnos) ar gyfartaledd i'w benderfynu. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o 77 diwrnod (11 wythnos) ar draws Cymru. Mae Ffigur 3 yn dangos yr amser cyfartalog a gymerir gan bob ACLI i benderfynu ar gais yn ystod y flwyddyn.


Ffigur 3: Amser cyfartalog a gymerwyd (diwrnodau) i benderfynu ar geisiadau, 2018-19



Llwyddwyd i benderfynu ar 90% o'r holl geisiadau cynllunio o fewn yr amser gofynnol. Roedd hyn yn cymharu ag 88% ledled Cymru a ni oedd un o 20 ACLI oedd wedi cyrraedd y targed o 80%.


Mae Ffigur 4 yn dangos canran y ceisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn yr amser gofynnol ar draws y prif fathau o gais cynllunio ar gyfer ein ACLI a Chymru. Mae'n dangos ein bod wedi penderfynu ar 97% o geisiadau i ddeiliaid tai o fewn yr amser gofynnol. Hefyd llwyddwyd i benderfynu ar 100% o geisiadau am Ganiatâd Adeilad Rhestredig o fewn yr amser gofynnol.

Ffigur 4: Canran y ceisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn yr amser gofynnol, yn ôl math, 2018-19



Rhwng 2017-18 a 2018-19, fel y dengys Ffigur 5, cynyddodd y canran o geisiadau cynllunio a benderfynwyd gennym o fewn yr amser gofynnol o 85%.

Ffigur 5: Canran y ceisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn yr amser gofynnol




Dros yr un cyfnod:

- Bu gostyngiad yn nifer y ceisiadau a dderbyniwyd gennym;
- Bu gostyngiad yn nifer y ceisiadau a benderfynwyd gennym; a
- Bu gostyngiad yn nifer y ceisiadau a gymeradwywyd gennym.

Ceisiadau mawr

Yn 2018-19, penderfynwyd ar 9 o geisiadau cynllunio mawr, nad oedd yr un ohonynt yn destun Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Cymerodd pob cais, ar gyfartaledd, 224 diwrnod (32 wythnos) i'w penderfynu. Fel y dengys Ffigur 6, roedd hyn yn amser byrrach na'r cyfartaledd dros Gymru o 232 diwrnod (33 wythnos).


Ffigur 6: Amser (diwrnodau) ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar gais mawr, 2018-19



Penderfynwyd ar 100% o'r ceisiadau mawr hyn o fewn yr amser gofynnol, o'i gymharu â 69% ar draws Cymru.

Mae Ffigur 7 yn dangos canran y ceisiadau mawr a benderfynwyd o fewn yr amser gofynnol yn ôl y math o gais mawr. Penderfynwyd ar 0% o'n ceisiadau mawr 'safonol' h.y. y rhai nad oedd angen AEA arnynt o fewn yr amser gofynnol yn ystod y flwyddyn.

Ffigur 7: Canran y ceisiadau cynllunio mawr a benderfynwyd o fewn yr amser gofynnol, yn ystod y flwyddyn, yn ôl math, 2018-19




Hefyd penderfynwyd ar 9 o geisiadau cynllunio mawr yr oedd angen CPA arnynt o fewn yr amser gofynnol yn ystod y flwyddyn.

Ers 2017-18 roedd canran y ceisiadau mawr a benderfynwyd o fewn yr amser gofynnol wedi cynyddu o 86%. Yn yr un modd, roedd nifer y ceisiadau mawr a benderfynwyd wedi cynyddu tra bod nifer y ceisiadau oedd yn destun AEA a benderfynwyd yn ystod y flwyddyn wedi aros yr un peth.

Mae Ffigur 8 yn dangos y patrwm o ran canran y ceisiadau cynllunio mawr a benderfynwyd o fewn yr amser gofynnol yn y blynyddoedd diwethaf, a sut mae hyn yn cymharu â Chymru gyfan.

Ffigur 8: Canran y ceisiadau cynllunio mawr a benderfynwyd o fewn yr amser gofynnol



Dros yr un cyfnod:

- Cynyddodd canran y ceisiadau bach a benderfynwyd o fewn yr amser gofynnol o 87% i 90%;
- Cynyddodd canran y ceisiadau gan ddeiliaid tai a benderfynwyd o fewn yr amser gofynnol o 92% i 97%; a
- Cynyddodd canran y ceisiadau eraill a benderfynwyd o fewn yr amser gofynnol o 79% i 89%.


Ansawdd

Yn 2018-19, gwnaeth ein Pwyllgor Rheoli Datblygu 26 o benderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn ystod y flwyddyn, oedd yn cyfateb i 5% o'r holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd. Ar draws Cymru 6% o'r holl benderfyniadau cais cynllunio a wnaed gan bwyllgor cynllunio.

4% o'r penderfyniadau hyn a wnaed gan yr Aelodau oedd yn groes i gyngor y swyddogion. Roedd hyn yn cymharu â 9% o'r penderfyniadau a wnaed gan yr Aelodau ar draws Cymru. Roedd hyn yn cyfateb i 0.2% o'r holl benderfyniadau ar geisiadau cynllunio a wnaed yn groes i gyngor y swyddogion; 0.5% ar draws Cymru.

Yn 2018-19 gwnaed 7 apêl yn erbyn ein penderfyniadau cynllunio, oedd yn cyfateb i 1.2 apêl am bob 100 o geisiadau a dderbyniwyd. Ar draws Cymru derbyniwyd 2 apêl am bob 100 o geisiadau. Mae Ffigur 9 yn dangos sut mae nifer yr apeliadau a dderbyniwyd wedi newid ers 2017-18 a sut mae hyn yn cymharu â Chymru.


Ffigur 9: Nifer yr apeliadau a dderbyniwyd fesul 100 o geisiadau cynllunio



Dros yr un cyfnod roedd canran y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd wedi gostwng o 85% i 79%.

O'r 6 apêl a benderfynwyd yn ystod y flwyddyn, gwrthodwyd 100%. Fel y dengys Ffigwr 10, hwn oedd y ganran uchaf o apeliadau a wrthodwyd yng Nghymru, a ni oedd un o 14 ACLI a gyrhaeddodd y targed o 66%.

Ffigur 10: Canran yr apeliadau gafodd eu gwrthod, 2018-19



Yn ystod 2018-19, ni chawsom unrhyw gais am gostau mewn apêl adran 78 wedi'i gadarnhau.

Roedd 10 o'r ymatebwyr (91%) i'r arolwg o farn clercod cynghorau tref a chymuned 2018-19 wedi dweud eu bod naill ai yn 'fodlon iawn' neu'n 'eithaf bodlon' â'r modd y mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn delio â'u cyngor ynglŷn ag apeliadau, o'i gymharu â 55% o'r ymatebwyr ar draws Cymru.

Ymgysylltu

Ni yw :

- un o'r 24 o awdurdodau cynllunio lleol oedd yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio;
- un o'r 22 o awdurdodau cynllunio lleol oedd â swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau'r cyhoedd; ac
- un o 2 awdurdod cynllunio lleol oedd â chofrestr rhannol ar-lein o geisiadau cynllunio.

Roedd 8 (73%) o'r clercod cynghorau tref a chymuned a ymatebodd i'r arolwg 2018-19 o'r farn bod gan eu cyngor ddigon o amser ac adnoddau i gyfrannu'n effeithiol i reoli datblygu yn ein hardal, o'i gymharu â 59% o glercod a ymatebodd ar draws Cymru gyfan. Dywedodd 2 (18%) eu bod 'bob amser' yn gallu, a 9 (82%) eu bod 'weithiau' yn gallu ymateb i geisiadau o fewn y cyfnod amser statudol o 21 diwrnod.

Fel y dengys Tabl 2, cytunodd 67% o'r rhai a ymatebodd i'n harolwg ar fodlonrwydd cwsmeriaid yn 2017-18 bod yr ACLI yn rhoi cyngor da i'w helpu i wneud cais llwyddiannus.

Tabl 2: Adborth o'n harolwg bodlonrwydd cwsmeriaid


Respondents who agreed that:	Pembrokeshire Coast National Park LPA %	Wales %
The LPA gave good advice to help them make a successful application	67	60
They were listened to about their application	71	60

Gorfodaeth

Yn 2018-19 ymchwiliwyd i 256 o achosion gorfodi gennym, oedd yn cyfateb i 11.4 fesul 1,000 o'r boblogaeth. Hon oedd y gyfradd uchaf yng Nghymru.

Ymchwiliwyd i 80% gennym o'r achosion gorfodi hyn o fewn 84 diwrnod. Ar draws Cymru ymchwiliwyd i 77% o'r achosion gorfodi o fewn 84 diwrnod. Mae Ffigur 11 yn dangos canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod ar draws pob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru.

Ffigur 11: Canran yr achosion gorfodi a ymchwiliwyd o fewn 84 diwrnod, 2018-19



Yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i ddilyn camau gorfodi cadarnhaol oedd 332 diwrnod.

Yn yr arolwg o farn clercod cynghorau tref a chymuned 2018-19, dywedodd 5 o'r ymatebwyr (45%) bod ein ACLI yn ymchwilio i achosion gorfodi 'yn brydlon iawn' neu 'yn weddol brydlon' o'i gymharu â 36% o ymatebwyr ar draws Cymru. Dywedodd 7 o'r ymatebwyr (64%) eu bod naill ai 'yn fodlon iawn' neu 'yn weddol fodlon' â'r modd y mae ein ACLI ar y cyfan yn ymateb i ymchwilio i dorri amodau cynllunio. Roedd hyn yn 40% ar draws Cymru.

ATODIAD A - FFRAMWAITH PERFFORMIAD

TROSOLWG

MESUR	DA	GWEDDO L	GWELLA
Llunio cynllun			
A oes Cynllun Datblygu cyfredol yn ei le sydd o fewn cyfnod y cynllun?	Oes		Na
Y gwyriad, wrth baratoi'r CDLI oddi wrth y dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol, mewn misoedd	<12	13-17	18+
Yr amser a gymerwyd i gychwyn ar y gwaith ffurfiol o adolygu'r CDLI yn dilyn sbarduno Rheoliad 41, mewn misoedd	<12	13-17	18+
A oes Cytundeb Cyflawni Adolygiad o'r CDLI wedi'i gyflwyno i ac wedi gytuno â Llywodraeth Cymru?	Oes		Na
Gwyriad yn yr adolygiad o'r CDLI o'r dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol, mewn misoedd	<3		4+
Adroddiadau Monitro Blynnyddol wedi'u cynhyrchu yn dilyn mabwysiadu'r CDLI	Do		Naddo
Cyflenwad tir yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer tai ar hyn o bryd mewn blynnyddoedd	>5		<5
Effeithlonrwydd			
Canran y ceisiadau "mawr" gafodd eu penderfynu o fewn y cyfnodau amser gofynnol	>60	50.1-59.9	<50
Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar geisiadau "mawr" mewn diwrnodau	Heb ei bennu	Heb ei bennu	Heb ei bennu
Canran yr holl geisiadau a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol	>80	70.1-79.9	<70
Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar yr holl geisiadau mewn diwrnodau	<67	67-111	112+

CYFARTALEDD D CYMRU	ACLI Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Y LLYNEDD	ACLI Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ELENÍ
Oes	Oes	Oes
73	Amherthnasol	Amherthnasol
17	-	23
Oes	-	Oes
1	-	0
Do	Do	Do
6 of 25	1.2	1.4
68	86	100
232	162	224
88	85	90
77	71	69

MESUR	DA	GWEDDO L	GWELLA
Canran y ceisiadau am Ganiatâd Adeilad Rhestredig a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol	>80	70.1-79.9	<70
Ansawdd			
Canran y penderfyniadau a wnaed gan yr Aelodau yn groes i gyngor swyddogion	<5	5-9	9+
Canran yr apeliadau gafodd eu gwrthod	>66	55.1-65.9	<55
Ceisiadau am gostau mewn apêl Adran 78 gafodd eu cadarnhau yn y cyfnod adrodd	0	1	2+
Ymgysylltu			
A yw'r awdurdod cynllunio lleol yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio?	Ydy		Na
A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau'r cyhoedd?	Oes		Na
A oes gan wefan yr awdurdod cynllunio lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd olrhain camau'r ceisiadau (a gweld eu cynnwys)?	Oes	Yn rhannol	Na
Gorfodi			
Canran yr achosion gorfodi gafodd eu hymchwilio (i benderfynu a yw rheolau cynllunio wedi'u torri ac, os felly, penderfynu ai cymryd camau gorfodi neu beidio) o fewn 84 diwrnod	>80	70.1-79.9	<70
Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i gymryd camau cadarnhaol o orfodi	<100	101-200	200+

CYFARTALED D CYMRU	ACLI Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Y LLYNEDD	ACLI Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ELENÍ
75	79	100
9	2	4
68	50	100
0	1	0
Ydy	Ydy	Ydy
Oes	Oes	Oes
Oes	Yn rhannol	Yn rhannol
77	70	80
167	468	332

ADRAN 1 – LLUNIO CYNLLUN

Dangosydd	01. A oes Cynllun Datblygu cyfredol yn ei le sydd o fewn cyfnod y cynllun?	
“Da”	“Gweddol”	“Angen Gwella”
Mae cynllun datblygu (CDLI neu CDU) yn ei le ac o fewn cyfnod y cynllun	Amherthnasol	Nid oes cynllun datblygu yn ei le (gan gynnwys cynllun sydd wedi dod i ben)

Perfformiad yr Awdurdod	Oes
Mae gan yr Awdurdod Gynllun Datblygu Lleol sydd wedi'i fabwysiadu tan 2021 ac mae CDLI 2 yn cael ei archwilio ar hyn o bryd gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Rhagwelir y caiff CDLI 2 ei fabwysiadu yn y flwyddyn ariannol 2019/2020.	

Dangosydd	02. Y gwyrriad, wrth baratoi'r CDLI, oddi wrth y dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol, mewn misoedd	
“Da”	“Gweddol”	“Angen Gwella”
Mae'r CDLI yn cael ei ddatblygu o fewn 12 mis i'r dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol	Mae'r CDLI yn cael ei ddatblygu o fewn rhwng 12 a 18 mis i'r dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol	Mae'r CDLI yn cael ei ddatblygu mwy na 18 mis yn hwyrach na'r dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol

Perfformiad yr Awdurdod	Amherthnasol
Amherthnasol	

Dangosydd	03. Yr amser a gymerwyd i gychwyn ar adolygu CDLI yn ffurfiol yn dilyn sbarduno Rheoliad 41, mewn misoedd	
"Da"	"Gweddol"	"Angen Gwella"
Mae'r Cytundeb Cyflawni yn cael ei gyflwyno llai na 12 mis ar ôl sbarduno Rheoliad 41	Mae'r Cytundeb Cyflawni yn cael ei gyflwyno rhwng 12 a 18 mis ar ôl sbarduno Rheoliad 41	Mae'r Cytundeb Cyflawni yn cael ei gyflwyno mwy na 18 mis ar ôl sbarduno Rheoliad 41

Perfformiad yr Awdurdod	23
Mae'r adolygiad o'r CDLI yn cael ei archwilio ar hyn o bryd.	

Dangosydd	04. A yw Cytundeb Cyflawni Adolygiad o'r CDLI wedi'i gyflwyno i ac wedi'i gytuno â Llywodraeth Cymru?	
"Da"		"Angen Gwella"
Mae'r ACLI wedi cyflwyno Cytundeb Cyflawni Adolygiad o'r CDLI ac wedi'i gytuno â Llywodraeth Cymru		Nid yw'r ACLI wedi cyflwyno Cytundeb Cyflawni Adolygiad o'r CDLI nac wedi'i gytuno gan Lywodraeth Cymru

Perfformiad yr Awdurdod	Ydy
Mae'r adolygiad o'r CDLI yn cael ei archwilio ar hyn o bryd.	

Dangosydd	05. Y gwriad, wrth baratoi'r CDLI, oddi wrth y dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol, mewn misoedd	
"Da"		"Angen Gwella"
Mae'r CDLI yn cael ei ddatblygu o fewn y dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol		Mae'r CDLI yn cael ei ddatblygu yn hwyrach na'r dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol

Perfformiad yr Awdurdod	0
Mae'r adolygiad o'r CDLI yn cael ei archwilio ar hyn o bryd.	

Dangosydd	06. Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi'u cynhyrchu yn dilyn mabwysiadu'r CDLI
-----------	---

"Da"		"Angen Gwella"
Mae'n amser cyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol ac mae un wedi'i baratoi		Mae'n amser cyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol ac nid yw wedi'i baratoi mewn pryd

Perfformiad yr Awdurdod	Ydynt

Dangosydd	07. Cyflenwad tir yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer tai ar hyn o bryd mewn blynyddoedd	
"Da"		"Angen Gwella"
Mae gan yr Awdurdod 5 mlynedd neu fwy o gyflenwad o dir ar gyfer tai		Mae gan yr Awdurdod llai na 5 mlynedd o gyflenwad o dir ar gyfer tai

Perfformiad yr Awdurdod	1.4
Byddai ffigurau amcanestyniad Llywodraeth Cymru o nifer yr aelwydydd yn awgrymu mai prin yw'r cyfiawnhad dros ddarparu tai yng Nghynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Fodd bynnag byddai darparu tai ar sail amcanestyniad o nifer yr aelwydydd a arweinir gan ddatblygu, o bosibl, yn cadw proffil poblogaeth mwy ifanc. Mae gwir angen am dai fforddiadwy yn y Parc Cenedlaethol. Byddai polisi yn seiliedig ar ddarparu tai'r farchnad agored fel croes-gymhorthdal i ddarparu tai fforddiadwy yn gymorth i ddiwallu'r angen. Y prif benderfynyddion o ran yr hyn y gellir ei ddarparu yw: ▪ dosbarthu datblygiadau tai yn unol â strategaeth ofodol y Cynllun. ▪ y gallu i ddarparu safleoedd i gyflenwi ar raddfa o rhyw 60 o anheddau y flwyddyn. ▪ capasiti tirwedd y Parc Cenedlaethol i ymgorffori datblygiadau tai ychwanegol.	

ADRAN 2 – EFFEITHLONRWYDD

Dangosydd	08. Canran y ceisiadau "mawr" gafodd eu penderfynu o fewn y cyfnodau amser gofynnol	
"Da"	"Gweddol"	"Angen Gwella"
60% neu fwy o geisiadau yn cael eu penderfynu o fewn y cyfnod amser statudol	Rhwng 50% a 60% o geisiadau yn cael eu penderfynu o fewn y cyfnod amser statudol	Llai na 50% o geisiadau yn cael eu penderfynu o fewn y cyfnod amser statudol

Perfformiad yr Awdurdod	100
Roedd yr Awdurdod wedi penderfynu ar 9 o geisiadau mawr o fewn y cyfnod penderfynu gan berfformio'n eithriadol o dda o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 68%. Nid yw dynodiad statudol yn gwahardd datblygu, ond rhaid asesu cynigion ar gyfer datblygiad yn ofalus am eu heffaith ar y buddiannau treftadaeth naturiol hynny y mae'r dynodiad yn eu diogelu. Mewn Parciau Cenedlaethol, mae ystyriaethau arbennig yn berthnasol i gynigion datblygu mawr sy'n fwy cenedlaethol na lleol eu cymeriad.	

Dangosydd	09. Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar geisiadau "mawr" mewn diwrnodau	
"Da"	"Gweddol"	"Angen Gwella"
Y targed i'w feincnodi	Y targed i'w feincnodi	Y targed i'w feincnodi

Perfformiad yr Awdurdod	224
Er nad yw'r ffigur hwn wedi'i feincnodi, unwaith eto mae'r Awdurdod wedi perfformio'n dda a llawer yn is na'r cyfartaledd dros Gymru o 232 diwrnod. Roedd rhai ceisiadau mawr yn ddarostyngedig i negodi, Asesiadau Priodol a chytundebau A106 cymhleth, oedd wedi effeithio ar yr amser a gymerwyd i wneud penderfyniad terfynol.	

Dangosydd	10. Canran yr holl geisiadau a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol	
"Da"	"Gweddol"	"Angen Gwella"
80% neu fwy o geisiadau yn cael eu penderfynu o fewn y cyfnod amser statudol	Rhwng 70% ac 80% o geisiadau yn cael eu penderfynu o fewn y cyfnod amser statudol	Llai na 70% o geisiadau yn cael eu penderfynu o fewn y cyfnod amser statudol

Perfformiad yr Awdurdod	90
Roedd yr Awdurdod wedi syrthio i'r categori 'Da' am y perfformiad o ran penderfynu ar geisiadau o fewn y cyfnod penderfynu. Mae'r 'cyfnodau amser gofynnol' yn cyfeirio at estyniadau amser y cytunwyd arnynt, ac mae'r Awdurdod wedi adolygu'r prosesau o ran cyfnodau penderfynu ac wedi cyflwyno system fwy cadarn i sicrhau bod estyniadau amseroedd yn cael eu cytuno ar geisiadau sydd wedi mynd dros y cyfnod penderfynu gwreiddiol.	

Dangosydd	11. Yr amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar yr holl geisiadau mewn diwrnodau	
"Da"	"Gweddol"	"Angen Gwella"
67 diwrnod neu lai	Rhwng 67 a 111 diwrnod	Mwy na 112 diwrnod

Perfformiad yr Awdurdod	69
Er bod yr Awdurdod wedi syrthio i'r categori 'Gweddol', o'i gymharu â gweddill Cymru roedd yr Awdurdod wedi perfformio'n dda. Mae perfformiad yr Awdurdod yn cymharu'n dda yn erbyn cyfartaledd Cymru o 77 diwrnod, ac mae'r ffigur wedi gostwng o'r 71 yn 2017/18. Mae targed wedi'i osod ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod i gyrraedd amser ar gyfartaledd o benderfynu ar bob cais o 66 diwrnod.	

Dangosydd	12. Canran y ceisiadau am Ganiatâd Adeilad Rhestredig a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol	
"Da"	"Gweddol"	"Angen Gwella"
80% neu fwy o geisiadau yn cael eu penderfynu o fewn y cyfnod amser statudol	Rhwng 70% ac 80% o geisiadau yn cael eu penderfynu o fewn y cyfnod amser statudol	Llai na 70% o geisiadau yn cael eu penderfynu o fewn y cyfnod amser statudol

Perfformiad yr Awdurdod	100
Mae perfformiad yr Awdurdod yn cymharu'n eithriadol o dda yn erbyn cyfartaledd Cymru o 75%. Mae Cadw wedi dirprwyo'r gwaith i'r Awdurdod o benderfynu ar geisiadau adeiladau rhestredig ar gyfer gwaith ar adeiladau rhestredig Gradd II a chynnig gwasanaeth cyn-ymgeisio, sy'n gymorth mawr ym mherfformiad yr Awdurdod ac ansawdd ac addasrwydd y ceisiadau a gyflwynir.	

ADRAN 3 – ANSAWDD

Dangosydd	13. Canran y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn groes i gyngor swyddogion	
“Da”	“Gweddol”	“Angen Gwella”
Llai na 5% o benderfyniadau wedi’u gwneud yn groes i gyngor swyddogion	Rhwng 5% a 9% o benderfyniadau wedi’u gwneud yn groes i gyngor swyddogion	Mwy na 9% o benderfyniadau wedi’u gwneud yn groes i gyngor swyddogion

Perfformiad yr Awdurdod	4
Mae’r Awdurdod yn cymryd canran uwch o geisiadau cynllunio i’r Pwyllgor Rheoli Datblygu na’r canran cyfartalog a gymerir gan awdurdodau cynllunio Cymru. Cafodd penderfyniadau eu gwneud yn groes i argymhelliad swyddogion ac yn groes i bolisi lleol a chenedlaethol, a bydd yr Awdurdod yn cynnal sesiwn hyfforddiant ar y meysydd hyn.	

Dangosydd	14. Canran yr apeliadau gafodd eu gwrthod	
“Da”	“Gweddol”	“Angen Gwella”
Mwy na 66% o’r penderfyniadau cynllunio wedi’u hamddiffyn yn llwyddiannus adeg apêl	Rhwng 55% a 66% o’r penderfyniadau cynllunio wedi’u hamddiffyn yn llwyddiannus adeg apêl	Llai na 55% o’r penderfyniadau cynllunio wedi’u hamddiffyn yn llwyddiannus adeg apêl

Perfformiad yr Awdurdod	100
Mae’r Awdurdod hwn wedi perfformio’n dda eleni wrth amddiffyn eu penderfyniadau adeg apêl, sy’n dangos bod yr Awdurdod yn gweithredu polisiau lleol a Chenedlaethol yn gywir wrth wneud eu penderfyniadau.	

Dangosydd	15. Ceisiadau am gostau mewn apêl Adran 78 a gafodd eu cadarnhau yn y cyfnod adrodd	
“Da”	“Gweddol”	“Angen Gwella”
Nid yw’r Awdurdod wedi gorfod talu costau unrhyw apêl yn ei erbyn	Mae’r awdurdod wedi gorfod talu costau un apêl yn ei erbyn	Mae’r awdurdod wedi gorfod talu costau dwy apêl neu fwy yn ei erbyn

Perfformiad yr Awdurdod	0
Gwnaed un cais am gostau yn ystod 2018/19 a amddiffynnwyd yn llwyddiannus gan yr Awdurdod.	

ADRAN 4 – YMGYSYLLTU

Dangosydd	16. A yw'r awdurdod cynllunio lleol yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio?	
"Da"		"Angen Gwella"
Mae aelodau'r cyhoedd yn gallu annerch y Pwyllgor Cynllunio		Nid yw aelodau'r cyhoedd yn gallu annerch y Pwyllgor Cynllunio

Perfformiad yr Awdurdod	Ydy
Mae aelodau'r cyhoedd yn gallu annerch y pwyllgor rheoli datblygu – yr amser a ganiateir ar gyfer hyn yw 5 munud i'r ymgeisydd/asiant, gwrthwynebydd, cefnogwr, Cyngor Tref/Cymuned a'r Cynghorydd Lleol. Hefyd mae Cadeirydd y cyfarfod yn amlach na heb yn gofyn i'r siaradwr fod ar gael i ateb unrhyw gwestiwn/ymholiad gan yr Aelodau am ei gyflwyniad.	

Dangosydd	17. A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau'r cyhoedd?	
"Da"	"Gweddol"	"Angen Gwella"
Mae swyddog cynllunio sydd ar ddyletswydd ar gael yn ystod oriau arferol y swyddfa	Mae swyddog cynllunio sydd ar ddyletswydd ar gael, ond nid bob amser yn ystod oriau arferol y swyddfa	Nid oes swyddog cynllunio sydd ar ddyletswydd ar gael

Perfformiad yr Awdurdod	Yes
Bob dydd lau mae gennym ddiwrnod lle mae swyddog ar ddyletswydd. Cyfle yw hyn i aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol gael gair â swyddog cynllunio i gael cyngor ar ymholiadau cynllunio. Gwasanaeth rhad ac am ddim yw hwn sy'n cael ei werthfawrogi. Mae'r rhan fwyaf o'r slotiau hanner awr wedi'u llogi ymlaen llaw. Gall y rhai sy'n cymryd rhan naill ai ddod i'r swyddfa i gael cyfarfod wyneb yn wyneb neu gadw'r slot ar gyfer galwad ffôn cynhadledd. Y gwasanaeth swyddog ar ddyletswydd yw'r gwasanaeth yr oedd yr ymatebwyr i'r arolwg yn ei werthfawrogi fwyaf.	

Dangosydd	18. A oes gan wefan yr awdurdod cynllunio lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd olrhain camau'r ceisiadau (a gweld eu cynnwys)?	
"Da"	"Gweddol"	"Angen Gwella"
Mae pob dogfen ar gael ar-lein	Dim ond manylion y cais cynllunio sydd ar gael ar-lein	Ni chyhoeddir gwybodaeth am geisiadau cynllunio ar-lein

Perfformiad yr Awdurdod	Rhannol
Mae gan yr Awdurdod y cyfleuster ar-lein lle gellir gweld manylion y cais ar-lein, gan gynnwys disgrifiad, y swyddog achos, y penderfyniad a manylion eraill. Mae adroddiad y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar gael ar-lein ac mae'n cynnwys delweddau o'r cynlluniau perthnasol ar gyfer pob cais a ystyrir. Mae'r system yn gyfyngedig o ran nad yw'r dogfennau sy'n ategu'r cais ar gael i'w gweld ar-lein. O ran ceisiadau mawr, mae'r Awdurdod yn lan-lwytho cynlluniau a dogfennau allweddol y cais i'r wefan. Mae'r Awdurdod bellach wedi mynd i'r afael â'r cyfyngiad hwn, ac ers mis Mawrth 2019 mae ceisiadau ar gael i gael golwg arnynt ar-lein.	

ADRAN 5 – GORFODI

Dangosydd	19. Canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt (i benderfynu a yw rheolaeth gynllunio wedi'i thorri, ac os ydyw, penderfynu a fydd mantais mewn cymryd camau gorfodi) o fewn 84 diwrnod	
"Da"	"Gweddol"	"Angen Gwella"
80% neu fwy o achosion gorfodi wedi'u hymchwilio mewn 84 diwrnod	Rhwng 70% ac 80% o achosion gorfodi wedi'u hymchwilio mewn 84 diwrnod	Llai na 70% o achosion gorfodi wedi'u hymchwilio mewn 84 diwrnod

Perfformiad yr Awdurdod	80
Mae'r Awdurdod wedi'i staffio'n llawn yn y Tîm Gorfodi yn ystod 2018/19 ac yn ogystal â llwyddo i fod yn y categori "Da" llwyddwyd i glirio'r ôl-groniad hanesyddol o geisiadau.	

Dangosydd	20. Yr amser ar gyfartaledd a gymerwyd i gymryd camau gorfodi cadarnhaol	
"Da"	"Gweddol"	"Angen Gwella"
100 diwrnod neu lai	Rhwng 101-200 diwrnod	Mwy na 200 diwrnod

Perfformiad yr Awdurdod	332
Mae perfformiad yr Awdurdod yn y maes hwn yn wael ac yn llawer uwch na chyfartaledd Cymru. Serch hynny mae'r ffigur yn welliant ar ffigur 2017/18 o 468. Roedd perfformiad gwael yn y maes hwn i'w ddisgwyl oherwydd y gwaith a wnaed i glirio'r ôl-groniad hanesyddol o achosion gorfodi.	

ADRAN 6 – DANGOSYDDION YNGHYLCH DATBLYGU CYNALIADWY

Diben y dangosyddion Datblygu Cynaliadwy yw mesur y cyfraniad y mae'r system gynllunio yn ei wneud i ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru.

Bydd y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy yn cael eu defnyddio i fesur y camau a gymerwyd yn erbyn yr amcanion cenedlaethol ar gynaliadwyedd cynllunio, a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru, a gellir eu defnyddio i ddangos i'n rhanddeiliaid rôl a chwmpas y system gynllunio o ran cyflawni amcanion ehangach. Hefyd bydd y wybodaeth yn ddefnyddiol i awdurdodau cynllunio lleol ddeall mwy am ganlyniadau'r system gynllunio ac yn helpu i lywio penderfyniadau yn y dyfodol.

Dangosydd	DC1. Yr arwynebedd llawr (metrau sgwâr) ar gyfer datblygiad economaidd newydd y rhoddwyd neu y gwrthodwyd caniatâd ar ei gyfer ar safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd yn ystod y flwyddyn.
------------------	---

Caniatawyd (metrau sgwâr)	
Data'r Awdurdod	0

Gwrthodwyd (metrau sgwâr)	
Data'r Awdurdod	0

O ran y Cynllun Datblygu Lleol cyfredol (a fabwysiadwyd yn 2010) y targed oedd bod 33% o'r tir a ddyrannwyd wedi cael caniatâd erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2014/15 neu ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2015-16. Mae 3 safle wedi'u dyrannu ac nid yw'r gwaith datblygu yn mynd rhagddo.

Ymhlith y rhesymau am hyn mae diffyg diddordeb gan y tirberchennog, diffyg diddordeb gan y datblygwr, a materion sy'n ymwneud â hyfywedd dod â safleoedd cyflogaeth ymlaen lle mae diffyg arian cyhoeddus. Mae'r mater hwn yn derbyn sylw fel rhan o'r gwaith o adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol.

Fodd bynnag nid yw hyn yn golygu nad yw gweithgareddau cyflogaeth yn cael eu cymeradwyo gan y Parc Cenedlaethol. Fel enghraifft, cafodd 773 o geisiadau eu cymeradwyo ar gyfer defnydd sy'n ymwneud â chyflogaeth yn ystod cyfnod y Cynllun (ar ddiwedd mis Ebrill 2017) ond nid oedd y ceisiadau hyn ar safleoedd a ddyrannwyd. Ni chafodd unrhyw ganiatâd cynllunio ei wrthod ar safleoedd a ddyrannwyd.

Dangosydd	DC2. Caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn ystod y flwyddyn.
------------------	--

Caniatawyd (nifer y ceisiadau)	
Data'r Awdurdod	7

Caniatawyd (yr ynni MW a gynhyrchwyd)	
Data'r Awdurdod	0

Mae ardal y Cynllun yn gwneud cyfraniad bach o ran oriau gigawat o ynni yn hytrach na megawat. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol wedi rhagori ar y targed cynhyrchu trydan (os cymerir bod pob un sydd wedi cael caniatâd wedi'u hadeiladu) ond ymhell ar ei hôl hi o ran cynhyrchu gwres. Mae'r diddordeb mewn paneli haul, biomas a threulio anaerobig yn parhau er bod y galw am dyrbinau gwynt wedi gostwng yn sylweddol yn y pedair i bum mlynedd diwethaf.

Dangosydd	DC3. Nifer yr anheddau y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn.
------------------	--

Tai'r farchnad agored (nifer yr unedau)	
Data'r Awdurdod	211

Tai fforddiadwy (nifer yr unedau)	
Data'r Awdurdod	95

Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 95 o unedau fforddiadwy yn y flwyddyn adrodd hon.

Dangosydd	DC4. Nifer y ceisiadau am ganiatâd cynllunio i ddatblygu ar orlifdiroedd C1 a C2 a ganiatawyd ac a wrthodwyd yn ystod y flwyddyn.
------------------	--

Nifer yr unedau preswyl (a nifer hectarau'r unedau amhreswyl) y RHODDWDYD caniatâd ar eu cyfer	
Data'r Awdurdod	0

Nifer yr unedau preswyl (a nifer hectarau'r unedau amhreswyl) NA RODDWDYD caniatâd ar eu cyfer ar sail risg llifogydd	
Data'r Awdurdod	0

Nid oedd unrhyw gais am unedau preswyl newydd wedi'i benderfynu yn ystod 2018/19.

Dangosydd	DC5. Arwynebedd y tir (ha) lle rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu newydd ar dir sydd eisoes wedi cael ei ddatblygu a thir maes glas yn ystod y flwyddyn.
------------------	--

Tir sydd eisoes wedi cael ei ddatblygu (hectarau)	
Data'r Awdurdod	Dim

Tir maes glas (hectarau)	
Data'r Awdurdod	Dim

Blwyddyn		Targed ar gyfer tir llwyd %	Tir glas %	Tir llwyd %
2015/16	Tai a gwblhawyd (Adolygu'r Cynllun)	33	17.8	82.2
2015/16	Caniatâd Cyflogaeth	45	38	62
2016/17	Tai a gwblhawyd	33	15	85
2016/17	Caniatâd Cyflogaeth	45	23	77
2017/18	Tai a gwblhawyd	33	21	79
2017/18	Caniatâd Cyflogaeth	45	39	61
2018/19	Tai a gwblhawyd	33	39	61
2018/19	Caniatâd Cyflogaeth	45	23	77

Mae'r Awdurdod yn monitro'r nifer o unedau tai a'r nifer o ganiatâd cyflogaeth sydd ar dir glas ac ar dir llwyd. Mae'r Cynllun yn gyson yn rhagori ar y targed.

Dangosydd	DC6. Arwynebedd y mannau agored cyhoeddus (ha) fyddai'n cael ei golli a'i ennill o ganlyniad i ddatblygu y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer yn ystod y chwarter blwyddyn.
------------------	---

Mannau agored a gollwyd (hectarau)	
Data'r Awdurdod	Dim

Mannau agored a enillwyd (hectarau)	
Data'r Awdurdod	Dim

Ni cholllwyd unrhyw fan agored yn ystod y cyfnod monitro.	
---	--

Dangosydd	DC7. Cyfanswm y cyfraniadau ariannol (£) y cytunwyd arnynt o'r caniatâd cynllunio a roddwyd i ddatblygiadau newydd yn ystod y chwarter ar gyfer darparu seilwaith cymunedol.
------------------	---

Enillwyd drwy gytundebau Adran 106 (£)	
Data'r Awdurdod	£111,812

Enillwyd drwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol (£)	
Data'r Awdurdod	Dim

Yn 2018/2019 derbyniodd yr Awdurdod £30,000 trafndiaeth ac £81,812 ar gyfer tai fforddiadwy.	
--	--